

# Gŵyl Ddewi

## Darllen: Mathew 5:14–15

Mae rhai pobl wrth eu boddau yng nghwmni plant. Dyna pam fod cynifer o bobl yn mynd ati i ddilyn cwrs i fod yn athrawon. Os hyfforddi hefyd. Mae rhai'n dweud na fedrwch chi ddim hyfforddi neb i fod yn athro neu athrawes. Mae hi'n ddawn gynhenid. Rydych chi'n cael eich geni i fod yn athro. Beth bynnag am hynny. Mae plant yn ddiddorol. Gofyn cwestiwn digon diflas wnes i i griw ohonyn nhw'r diwrnod o'r blaen, 'Be ydych chi am fod ar ôl tyfu i fyny?' A dyma un ohonyn nhw'n ateb yn syth fel bwled – 'sant'. Mi ges i dipyn o sioc a dweud y gwir. Atebion gwahanol ges i gan y lleill – y bechgyn eisiau bod yn beldroedwyr, ambell un o'r genethod eisiau bod yn nyrs, un eisiau bod yn gantor fel Bryn Terfel ac un arall eisiau gweithio yn B&Q. Ond meddylwch, un eisiau bod yn sant! Ac mae'n siŵr fod gan bob un ohonon ni syniad pur dda beth ydi sant – dyn (fel arfer) duwiol, sanctaidd yr olwg a gwawl o gwmpas ei ben. Ond ai dyma gysyniad y Testament Newydd o beth ydi sant? Roedd Paul yn ysgrifennu ei lythyrau at y 'saint' yn y lle a'r lle. Go brin mai ysgrifennu at bobl fel hyn oedd Paul yn Philipi, Corinth a lleoedd tebyg yn y ganrif gyntaf.

Wel beth ydi'r gofynion, neu a bod yn fwy cyfoes, beth ydi'r cymwysterau i fod yn sant? Mae sant yn berson gwahanol, sy'n byw ei fywyd (neu ei bywyd) mewn perthynas agos ag Iesu Grist. Person da, felly. Ie, ond nid yn unig berson da sy'n gwneud gweithredoedd da, ond person sy'n byw bywyd gwahanol oherwydd ei gred - oherwydd ei fod yn credu mewn rhywun arbennig. Mi glywch chi ambell un yn dweud peth fel hyn, 'Mi ydw i gystal Cristion â'r gorau, ond fydda i byth yn mynd i gapel nag eglwys'. Dweud wnân nhw eu bod yn bobl dda. Ond mae bod yn Gristion yn wahanol. Nid mater o fod 'cystal â'r gorau' ydyw. Cred ydi'r peth cyntaf, gyda gweithredoedd da yn deillio o hynny. Y gred yn Iesu Grist sy'n hybu'r gweithredu.

Ond i'r sant, nid rhywbeth i'w gadw iddo'i hun yw daioni ond rhywbeth i'w rannu ag eraill. Mynegbost sy'n dangos Iesu Grist ydi sant. Pan aethpwyd

â chriw o blant i weld eglwys y plwyf roedd un o'r genethod wedi dotio at y ffenestri lliw. Ar ôl cyfnod o ryfeddu at y lluniau a'r lliwiau a'r haul yn disgleirio drwyddynt dyma hi'n gofyn i'w hathrawes, 'Lluniau pwy ydi'r rheina yn y ffenestri?' 'Hen seintiau ydi'r rheina,' meddai'r athrawes. 'Edrychwch,' meddai'r fechan, 'mae goleuni'r haul yn dod drwyddynt nhw ar fy nillad i ac ar eich wyneb chithau.'

Rhywun felly ydi sant - rhywun sy'n adlewyrchu'r lliwiau gorau, y pethau gorau. Mae'n adlewyrchu'r hwn y mae'n cred ynddo. 'Felly boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd.' (Mathew 5:16)

### **Myfyrdod pellach:**

Ydych chi'n haeddu cael eich galw'n sant?

Ai adlewyrchu bywyd Iesu ydi'n gwaith ni heddiw?

# Gŵyl Ddewi

## Darllen: Ecclesiasticus 44:1

Dyma'r adeg o'r flwyddyn y byddwn ni'n ymfalchïo ein bod yn Gymry. Byddwn yn cynnal gwleddoedd, yn gwisgo cennin Pedr ac yn mynd ati o ddifrif i siarad Cymraeg. Dyma ŵyl ein nawddsant Dewi. Mynach o'r chweched ganrif oedd Dewi. Sant neu Sandde ap Ceredig ap Cunedda Wledig oedd ei dad a Non oedd ei fam. Magwyd ac addysgwyd Dewi yn Henfynyw ger Aberaeron, ac ymsefydlodd yn ddiweddarach yng Nglyn Rhosyn, lle saif Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Heddiw, mae Tyddewi'n edrych yn lle pell ac anhygyrch, ac maen syndod bod Eglwys mor ysblennydd wedi ei hadeiladu mewn llecyn o'r fath. Ond ers talwm roedd hi ar brif lwybrau trafniadaeth Cymru – y llwybr oedd yn arwain dros y môr i Iwerddon, ac i Gernyw a Llydaw a sawl gwlad arall. Ac yma, yn ôl pob hanes, y mae gweddillion Dewi. Beth sydd gan y sant hwn o'r chweched ganrif i'w ddweud wrthyn ni heddiw?

Mae Dewi'n awyddus i ni ymfalchïo yn ein cenedl, 'Dros Gymru'n gwlad, O! Dad dyrchafwn gri' yw ein hemyn cenedlaethol ar ddydd ein nawddsant. Ymfalchïai'r Iddew yn ei genedl, a chredai bod Duw'n dangos ffafwr arbennig tuag ati. Geiriau cyntaf Duw wrth Abraham oedd, 'Dos o'th wlad, ac oddi wrth dy dylwyth a'th deulu, i'r wlad a ddangosaf i ti. Gwnaf di yn genedl fawr a bendithiaf di' (Genesis 12:1–2). Ond yn ystod ei weinidogaeth fe ehangodd Iesu orwelion ei ddisgyblion a'i bobl; ei eiriau olaf iddyn nhw oedd 'gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd' (Mathew 28:19), a byrdwn ei neges ar ddydd ei Ddyrchafael oedd 'hyd eithaf y ddaear' (Actau 1:8). Er mwyn iddyn nhw wireddu a chyflawni ei genadwri mae'n addo ei awdurdod iddyn nhw. Mae'n rhoi iddyn nhw her i wneud disgyblion o'r holl genhedloedd, ac yn addo ei bresenoldeb iddyn nhw, 'Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser' (Mathew 28:20). Mae gŵyl ein nawddsant yn galw arnom i ddyrchafu ein cenedl, ond mae'n rhaid i ni weld hynny yng nghyd-destun cenedloedd y byd. Ffordd arall o edrych ar hyn yw gwneud ein cenedl yn esiampl i genhedloedd eraill. Un o'r arloeswyr a gredai hyn yn angerddol oedd y

Prifathro Thomas Rees, a fu'n brifathro Coleg Bala-Bangor, Coleg yr Annibynwyr ym Mangor. Credai mai cenhadaeth unigryw Cymru oedd rhoi arweiniad i'r byd ym maes crefydd, addysg a heddwch. Y genedl fwyaf addas ar gyfer cyfrannu bendithion crefydd ac addysg yw'r un y mae ei bywyd a'i delfrydau hi ei hun wedi eu sylfaenu ar egwyddorion Iesu o Nasareth. Credai'r Prifathro bod athrylith Cymru ynglŷn â chrefydd yn gryfach nag eiddo cenhedloedd eraill y byd. Meddai yn *Y Dysgedydd* yn 1925, 'Neges y sawl a ddewisodd Dewi'n nawddsant inni yw mai ffordd tangnefedd a diwylliant ysbrydol yw ffordd briod ein bywyd a'n cenhadaeth yn y byd'. A'r un modd ym myd addysg, ymfrostiai yn niwylliant ei bobl, gan fynnu fod crefftwyr, ffermwyr, glowyr a chwarelwyr Cymru'n fwy effro i fywyd, meddwl ac ysbryd na cenhedloedd eraill. A chyfrwng ac effaith y fath ddiwylliant oedd cyfraniad yr Ysgol Sul. Gwelai y gallai ei genedl fod yn gyfrwng i oleuo ac arwain cenhedloedd eraill. O gofio mai ar ddechrau dauddegau'r ganrif ddiwethaf yr ysgrifennodd Thomas Rees y geiriau, beth tybed fyddai ei farn heddiw?

### **Myfyrdod pellach:**

Ydyn ni'n rhy blwyfol pan fyddwn yn edrych ar ein cenedl?

Beth am syniad Thomas Rees o ddyrchafu Cymru a'i gwneud yn genedl i genhedloedd eraill ei hefelychu.

# Gŵyl Ddewi

## Darllen: Luc 19:9

Sut y byddwch chi'n dathlu dydd Gŵyl Ddewi? Allan yn gwledda? Mynd i gyngerdd neu oedfa? Sut bynnag y byddwn ni'n dathlu, mae'n werth cofio arwyddocâd ein dathliadau.

Byddwn yn siŵr o droi'n ôl at ein gorffennol. Mae hynny'n dueddiad cryf ynom fel Cymry. Mae llawer ohonom yn byw ar brofiadau ddoe. Byddwn yn meddwl am ein plentyndod, ein teulu, ein bro, ein cyfeillion a'n cymdogion. Rydyn ni o hyd ac o hyd yn cael ein denu at ein gwreiddiau a byddwn yn ymfalchïo yn naioni'r gorffennol, a'r tueddiad ydi gorliwio'r gorffennol. Soniwn yn rhamantus am y dyddiau da, yr hafau poeth, y gaeafau caled a phawb yn gyfeillgar a hapus ac yn rhydd o bob pryder a phoen. Diolchwn, wrth gwrs, am ddaioni'r gorffennol ond mae'n rhaid gofyn a fu'r gorffennol yn garedig bob amser wrth bawb. Ni fu unrhyw gyfnod yn rhydd o'i bryder na'i amheuan, ei fethiant a'i boen. Mor aml y mae'r gorffennol yn gadael y teimpladau dymunol a da, a'r gweddill yn mynd i ddifancoll. Onid cam â'r gorffennol yw edrych arno trwy lygaid rhamantus. A dyma'r gorffennol yn llifo'n ôl; y capeli llawn, y gymdeithas dda, y teuluoedd ffyddlon a'r plant ufudd. A dyna ble byddwn ni wedyn yn cymharu'r rhinweddau hyn â bywyd heddiw, ac yn dechrau digalonni a chael ein dadrithio.

A byddwn ofalus hefyd rhag cael ein twyllo gan y dyfodol. Edrychwn ymlaen at ryw ddyfodol pell pan fydd y darnau'n syrthio i'w lle a'r maglau wedi'u torri a dydd rhyddid gerllaw. Bob wythnos, ddwywaith a mwy erbyn hyn, mae yna gymaint o bobl yn edrych ymlaen yn eiddgar i weld ydi chwe rhif y loteri wedi ymddangos neu ydi'r gemau pêl-droed wedi gorffen yn gyfartal er mwyn i'r mil miliynau lifo i'w pocedi. Dyma sy'n cynnal ein gobeithion o wythnos i wythnos, ond pan gyhoeddir y canlyniadau ac y gwelir y rhifau ar nos Sadwrn bydd y breuddwydion wedi'u dryllio. A dyna noson arall o siom.

Mor hawdd ydi anwybyddu heddiw – y presennol. Mae gan heddiw ei

her a'i bosibiliadau. 'Heddiw yw'r amser cymeradwy.' Heddiw y daw'r cyfle i weithredu. Heddiw mae presenoldeb Duw gyda ni. Heddiw mae'n cyffwrdd â ni. Er gwaethaf ein methiant, ein bai, ein pechod a'n diffyg ffydd, mae Duw'n dal i ddod atom heddiw. Droeon yn yr efengylau, cawn hanes Iesu'n cyffwrdd â bywydau unigolion; weithiau cawn wybod eu henwau, ond dro arall ni chawn wybod. Rwy'n rhyfeddu bob amser at y wraig honno oedd yn ddigon hapus i gyffwrdd ag ymyl ei fantell gan wybod y byddai'n cael rhyddhad o'i chyflwr ac yn cael ei hiachau. Felly, yng ngoleuni'r digwyddiadau hyn, mae'n werth gofyn o'r newydd ar ddydd gŵyl ein nawddsant, beth allwn ni fel unigolion ei gyfrannu? Sut allwn ni fod o ddefnydd i'n pobl, i'n cymdeithas, i'n gwlad ac i'n byd. Drwy'r Efengylau, mae Iesu'n cyffwrdd ag unigolion; mae'n tosturio; mae'n galw ac yn cymell; mae'n cywiro a cheryddu. Mae'n galw 'canlyn fi'; 'dos'; 'cod a cherdda'; 'estyn dy law'; a 'phaid ag ofni'. Geiriau olaf Dewi oedd, 'Frodyr a chwirydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi.'

### **Myfyrdod pellach:**

Ydyn ni'n rhy barod i edrych yn ôl a byw ar brofiadau ddoe?

Beth sydd angen i ni ei wneud i 'fyw' heddiw?